OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 1372

# Rheoliadau Clefyd Pothellog y Moch (Cymru) 2009

## RHAN 5

Dulliau rheoli ardal

**Parthau gwarchod, parthau gwyliadwriaeth a pharthau cyfyngu ar symud**

**24.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys pan fo Gweinidogion Cymru'n cadarnhau bod y fangre yn fangre heintiedig.

(2) Onid yw'r fangre wedi'i rhestru ym mharagraff (3)—

(a) rhaid i Weinidogion Cymru ddatgan parth gwarchod a pharth gwyliadwriaeth o amgylch y fangre heintiedig, a

(b) caiff Gweinidogion Cymru ddatgan parth cyfyngu ar symud.

(3) Os yw'r fangre heintiedig—

(a) yn lladd-dy,

(b) yn filfeddygfa lle daethpwyd â mochyn i'w archwilio, neu

(c) yn unrhyw le arall y daethpwyd â mochyn iddo dros dro ac nad hwnnw yw canolbwynt yr heintiad ym marn Gweinidogion Cymru,

caiff Gweinidogion Cymru (ond nid oes angen iddynt) ddatgan parth gwarchod, parth gwyliadwriaeth a pharth cyfyngu ar symud o amgylch y fangre.

(4) Rhaid bod gan y parth gwarchod radiws o dri chilometr o leiaf a bod gan y parth gwyliadwriaeth radiws o ddeg cilometr o leiaf, a rhaid bod y naill a'r llall wedi'u canoli ar y rhan o'r fangre sy'n fwyaf priodol i reoli'r clefyd ym marn Gweinidogion Cymru.

(5) Rhaid i Weinidogion Cymru sicrhau—

(a) y nodir unrhyw fangre o fewn parth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth sy'n cynnwys moch cyn gynted â phosibl, a

(b) bod arolygydd milfeddygol yn ymweld â phob mangre o'r fath sydd o fewn parth gwarchod cyn gynted â phosibl a'i fod—

(i) yn arolygu ac, yn ôl yr angen, yn archwilio'r moch, a

(ii) yn casglu ac yn profi unrhyw samplau y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol.

(6) Mae Atodlen 2 yn nodi'r mesurau sy'n gymwys mewn parthau gwarchod a pharthau gwyliadwriaeth, ac mae torri unrhyw un o'r mesurau hynny'n dramgwydd.

(7) Caiff Gweinidogion Cymru ddatgan bod unrhyw fesur arall, sy'n angenrheidiol i atal, cyhyd â'i bod yn rhesymol ymarferol, feirws clefyd pothellog y moch rhag ymledu, yn gymwys i'r cyfan neu i unrhyw ran o unrhyw barth gwarchod neu barth gwyliadwriaeth.

(8) Mae mangre—

(a) sy'n rhannol y tu mewn ac yn rhannol y tu allan i barth gwarchod i'w thrin fel petai y tu mewn iddo;

(b) sy'n rhannol y tu mewn i barth gwyliadwriaeth ac yn rhannol mewn ardal nad yw'n barth gwarchod i'w thrin fel petai y tu mewn i'r parth gwyliadwriaeth;

(c) sy'n rhannol y tu mewn i barth cyfyngu ar symud ac yn rhannol mewn ardal nad yw'n barth gwyliadwriaeth i'w thrin fel petai y tu mewn i'r parth cyfyngu ar symud.

(9) Pan fo Gweinidogion Cymru'n datgan diwedd unrhyw barth gwarchod, daw'r ardal a ffurfiodd y parth gwarchod hwnnw'n rhan o'r parth gwyliadwriaeth.